# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary
# 03/06/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Health Provision

**Q1 Huw Lewis:** Will the First Minister make a statement on health provision in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ(3)1068(FM) ***Transferred for written answer.***

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Professor Mansel Aylward has been commissioned by the Minister for Health and Social Services to review healthcare proposals for Merthyr Tydfil. I look forward to the publication of his report.

### Darpariaeth Iechyd

**C1 Huw Lewis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth iechyd ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ(3)1068(FM) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu'r Athro Mansel Aylward i adolygu cynigion gofal iechyd ar gyfer Merthyr Tudful. Edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi ei adroddiad.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 10 yn y Cyfarfod Llawn.*
*Questions 2 to 10 were answered in Plenary.*

### The Private Finance Initiative

**Q11 Leanne Wood:** Will the First Minister make a statement on PFI schemes in Wales? OAQ(3)1056)

**The First Minister:** There are some 16 existing PFI schemes in Wales relating mostly to road, hospital and school infrastructure.

### Y Fenter Cyllid Preifat

**C11 Leanne Wood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau PFI yng Nghymru? OAQ(3)1056)

**Y Prif Weinidog:** Mae tua 16 o gynlluniau PFI yn bodoli yng Nghymru ar gyfer ffyrdd, ysbytai ac ysgolion, yn bennaf.

### The Regeneration of Barry

**Q12 Chris Franks:** Will the First Minister make a statement on discussions that the Welsh Assembly Government has had regarding the regeneration of Barry? OAQ(3)1045(FM)

**The First Minister:** My officials are in regular contact with the local authority to consider the regeneration challenges facing Barry. The Vale of Glamorgan local service board is also currently establishing a

### Adfywio'r Barri

**C12 Chris Franks:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch adfywio'r Barri? OAQ(3)1045(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r awdurdod lleol ynghylch yr heriau adfywio y mae'r Barri yn eu hwynebu. Hefyd, mae bwrdd gwasanaethau lleol Bro Morgannwg wrthi'n

regeneration and environment partnership, which will take a balanced and sustainable approach to regeneration through social, physical, economic and environmental improvements.

sefydlu partneriaeth yr amgylchedd ac adfywio a fydd yn ymdrin ag adfywio mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy drwy welliannau cymdeithasol, ffisegol, economaidd ac amgylcheddol.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1070(FM), yn ôl.*
*Question 13, OAQ(3)1070(FM), withdrawn.*

### Supporting Carers

**Q14 Irene James:** Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support carers in Wales? OAQ(3)1060(FM)

**The First Minister:** The carers' strategy provides £4 million a year in grant to local authorities under our mental health carers grant scheme, in addition to £5.9 million transferred into the local authority settlement from 2006-07. Carers' organisations will receive grant of £1.5 million over the next three years.

### Cefnogi Gofalwyr

**C14 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i gefnogi gofalwyr yng Nghymru? OAQ(3)1060(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r strategaeth gofalwyr yn darparu grant o £4 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol o dan ein cynllun grant gofalwyr iechyd meddwl, yn ogystal â £5.9 miliwn a drosglwyddwyd i setliad yr awdurdodd lleol o 2006-07. Bydd sefydliadau gofalwyr yn cael grant o £1.5 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

### Educational Standards

**Q15 Rosemary Butler:** Will the First Minister make a statement about educational standards in Wales? OAQ(3)1050(FM)

**The First Minister:** There is clear evidence of long-term gain in learning outcomes and quality of delivery in Wales, as the Estyn annual report for 2006-07 showed. The programmes that we have developed across the learning sectors in Wales are taking us broadly in the right direction.

### Safonau Addysgol

**C15 Rosemary Butler:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safonau addysgol yng Nghymru? OAQ(3)1050(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae tystiolaeth glir o gynnydd hirdymor mewn canlyniadau dysgu ac ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru, fel a ddangoswyd yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2006-07. Mae'r rhaglenni yr ydym wedi'u datblygu ar draws y sectorau dysgu yng Nghymru yn mynd â ni yn y cyfeiriad cywir, yn fras.